

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd fore Iau 26 Hydref 2017 am 10.30pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Cwm Clydach.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cabinet oedd yn bresennol:

A. Morgan M. Webber M. Norris

R. Bevan R. Lewis A. Crimmings G. Hopkins

C. Leyshon

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol:

S Bradwick, G Hughes, M Tegg, a R Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C. Bradshaw – Prif Weithredwr

Mr C. Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Mr C. Hanagan – Cyfarwyddwr – Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus (Ysgrifennydd i'r Cabinet)

Mr C. Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Mr G. Isingrini – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Mr T. Wilkins – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Ms E. Thomas – Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes Dros Dro

Mr N. Wheeler – Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd

Mr R. Waters – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd

Mr C. Atyeo – Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor a Chaffael

Mr D. James – Pennaeth Materion Cymunedau a Ffyniant

Ms Z. Lancelott – Pennaeth Materion Ymgysylltu a Chyfranogiad

Mr A Morgan – Cynllunydd Strategaeth Trafnidiaeth

62. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cyngorydd J. Rosser.

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

63 DATGAN BUDDIANT:

Cafodd y datganiad o fuddiant canlynol ei roi gan Ms E Thomas, Cyfarwyddwr Dros Dro – Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes mewn perthynas â'r Mater Brys i'w drafod – Adolygiad o Strwythur Uwch Reolwyr a Swyddi Rheoli Cysylltiedig y Cyngor:

"Mae cyfeiriad at fy swydd i yn yr adroddiad. Bydda i'n gadael y cyfarfod tra bydd y mater yn cael ei drafod a thra bydd pleidlais yn cael ei chynnal."

64. COFNODION

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19, 21, a 28 Medi, 2017, yn rhai cywir.

65 Gwaith cyn y cam craffu

Derbyn adroddiad yr Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y 'Cynllun Corfforaethol – Y Ffordd Ymlaen' a 'Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Datblygu Tai Gofal Ychwanegol' yn dilyn gwaith cyn y cam craffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 2 Hydref 2017.

Mewn perthynas â'r adroddiad ynghylch y Cynllun Corfforaethol – Y Ffordd Ymlaen, trafododd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ei gynnwys a'r cynigion ar gyfer eu gweithredu. Roedd y Pwyllgor yn gefnogol i'r 5 ffrwd gwaith a gafodd eu pennu gan y Prif Weithredwr yn ei adroddiad yntau.

Croesawodd Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr adroddiad mewn perthynas â Gofal Ychwanegol gan ei fod yn ategu'r angen am gyfuno gwasanaethau rhwng meysydd lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'i fod yn darparu opsiwn arall o ofal preswyl a fyddai'n galluogi unigolion i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau am gyhyd ag y bo modd. Soniodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet fod yr adroddiad gerbron y Cabinet ar y mater yma wedi'i newid ers y cyfarfod cyn y cam craffu er mwyn cadarnhau mai Treorci oedd y safle dros dro o ddewis ar gyfer gofal ychwanegol ym mhen uchaf Cwm Rhondda Fawr a bod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i ddefnyddio tir ar safle Ysbyty George Thomas ar gyfer Menter Hybiau Iechyd a Lles i Bobl Hŷn Valley Life.

Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd ddiolch i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am y gwaith cyn-graffu a gafodd ei wneud ynglŷn â'r ddau fater. Siaradodd Aelodau o'r Cabinet o blaid pwysigrwydd y gwaith a gafodd ei wneud, yn enwedig ychwanegu at yr adroddiad Gofal Ychwanegol ar gyfer ystyriaeth yr Aelodau.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:-**

- a) Nodi sylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn Atodiad A yr adroddiad mewn perthynas â'r ddogfen 'Cynllun Corfforaethol – Y Ffordd Ymlaen' (Atodiad B) a 'Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Datblygu Tai Gofal Ychwanegol' (Atodiad C).
- b) Cymeradwyo'r argymhellion a nodwyd ym mhob un o'r adroddiad (yn Atodiad B a C), fel sydd wedi'u rhestru isod:

➤ **CYNLLUN CORFFORAETHOL - Y Ffordd Ymlaen**

- i. Trafod cynnwys yr adroddiad hwn;

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

- ii. Cytuno, mewn egwyddor, â'r 5 ffrwd gwaith a fydd yn ceisio moderneiddio gwasanaethau hanfodol y Cyngor, a'u gwella.
- iii. Gofyn bod adroddiadau yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Cabinet, gan gyflwyno cynlluniau ar gyfer gwireddu dyhead y Cynllun Corfforaethol.

➤ **TRAWSNEWID GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION – DATBLYGU TAI GOFAL YCHWANEGOL**

- iv. Nodi'r strategaeth tai gofal ychwanegol sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad hwn a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r gofal a'r gefnogaeth y mae hen bobl yn eu cael ar draws Rhondda Cynon Taf.
- v. Cymeradwyo 4 safle ychwanegol sydd wedi'u cynnig dros dro ar gyfer eu datblygu, fel sydd wedi'i nodi yn Nhabl 2 yn yr adroddiad hwn, i ddarparu 220 o uned ychwanegol o dai gofal ychwanegol erbyn 2021, gan gychwyn gyda datblygiadau ar safle hen Gartref Gofal Maes-y-ffynnon, Aberaman, ac ym Mhontypridd.
- vi. Cymeradwyo'r ymrwymiad i bennu'r buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i gyfrannu at weithredu rhaglen datblygu tai gofal ychwanegol.
- vii. Derbyn adroddiadau rheolaidd sy'n nodi'r ddiweddaraf (bob blwyddyn o leiaf), ar hynt y gwaith o weithredu'r strategaeth.
- viii. Cymeradwyo adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau gofal preswyl ac oriau dydd ar gyfer pobl hŷn er mwyn pennu cyfleoedd o ran darparu gwasanaeth yn y dyfodol yn unol â strategaeth y Cyngor mewn perthynas â llety ar gyfer pobl hŷn ac i roi adroddiad i'r Cabinet ynglŷn â'r canfyddiadau yn nes ymlaen yn y flwyddyn ariannol hon.

66 CYNIGION O RAN GRANT CYMORTH CYFLOGADWYEDD A CHRONFA ETIFEDDIAETH CYMUNEDAU YN GYNTAF

Aeth Pennaeth Materion Cymunedau a Ffyniant drwy'i adroddiad a nododd set o gynigion mewn perthynas â Grant Cymorth Cyflogadwyedd a Chronfa Etifeddiaeth Cymunedau yn Gyntaf yn dilyn rhybudd yn gynharach yn y flwyddyn y bydd rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben. Clywodd Aelodau y bydd angen i'r Cyngor symud ymlaen gyda ffordd newydd er mwyn creu cymunedau cydnerth, gan ganolbwyntio ar gyflogadwyedd, y blynyddoedd cyntaf a grymuso pobl fel nodwyd yn rhan o'r cynigion yn yr adroddiad.

Aeth y Pennaeth Materion Cymunedau a Ffyniant ymlaen i roi gwybod y byddai angen i'r cynigion, o gael sêl bendith Aelodau, gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer ystyriaeth ac y byddai cyllid ar gael yn y lle cyntaf am ddwy flynedd o fis Ebrill 2018 hyd at fis Mawrth 2020.

Siaradodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Llesiant am yr adroddiad cadarnhaol a'r cynigion ynddo, gan sôn am gynaladwyedd y prosiectau yn y dyfodol oherwydd y cyllid dwy flynedd.

Soniodd y Dirprwy Arweinydd hefyd am yr arian Cymunedau yn Gyntaf, gan ychwanegu bod parhad yn nhermau cyflogadwyedd yn allweddol gyda golwg ar leihau amddifadedd ar draws y Fwrdeistref Sirol a bod y cynigion yn yr adroddiad yn rhoi cyfle gwell i sicrhau cynaladwyedd.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:-

- a) Nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

- b) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd i gyflwyno cais ffurfiol am gyllid o Grant Cymorth Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gynigion penodol fel sydd wedi'u nodi ym mharagraff 6.13 yn yr adroddiad.
- c) Cymeradwyo'r defnydd arfaethedig ar Gronfa Etifeddiaeth Cymunedau yn Gyntaf i barhau i gyflawni elfennau'r rhaglen sydd wedi'u pennu fel arfer da ac i leddfu'r effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth, y Cyngor a phartneriaid y sector gwirfoddol pan ddaw rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben ar 31 Mawrth, 2018.

67 ADOLYGIAD O'R RHAGLEN TEULUOEDD YN GYNTAF YN RHONDDA CYNON TAF

Cafodd Aelodau'u cyfeirio at yr adroddiad ger eu bron a oedd yn cynnwys canfyddiadau adolygiad manwl o'r prosiectau presennol wedi eu comisiynu trwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn unol â'r canllawiau diwygiedig gan Lywodraeth Cymru a rhaglen Teuluoedd Cydnerth Rhondda Cynon Taf a gafodd ei chymeradwyo yn ddiweddar.

Dywedodd Pennaeth Materion Cymunedau a Ffyniant wrth Aelodau fod y newidadau arfaethedig yn cymryd i ystyriaeth yr arweiniad Teuluoedd yn Gyntaf diwygiedig, y Fframwaith Rheoli Cyflawniad/Perfformiad Teuluoedd yn Gyntaf, a chanolbwyntio ar gamu-i-mewn ac atal yn gynnar sy'n meithrin gwydnwch a lles mewn teuluoedd, sicrhau bod pobl ifainc yn gydnerth, ac yn hyderus a'u bod nhw'n meddu ar fedrau sy'n eu cynorthwyo nhw i wneud cyfraniad ystyrlon i gymdeithas. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hefyd wedi diogelu'r meysydd o'r angen mwyaf, wedi rhoi sylw i ganfyddiadau'r adolygiad, gan hefyd leihau effaith darpariaeth rheng-flaen rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

Soniodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Llesiant ar ddeilliannau'r adolygiad, gan ychwanegu y byddai rhoi argymhellion yr adroddiad ar waith yn sicrhau bod Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu gwasanaeth 'iawn i'r diben', sy'n ymateb i anghenion teuluoedd yn RhCT. Croesawodd e hefyd y gyfres newydd o wasanaethau sydd wedi'u comisiynu'n strategol a fyddai'n darparu ymateb effeithiol ac ystyrlon i ddiwallu anghenion plant, pobl ifainc a'u teuluoedd sydd angen cymorth.

Dywedodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc eto am yr elfennau cadarnhaol yn yr adroddiad, gan sôn am bwysigrwydd camu-i-mewn yn gynnar gyda theuluoedd a'r agenda ataliol, a oedd yn gysylltiedig â'r deilliannau a nodwyd yn yr adroddiad.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.
- b) Cymeradwyo'r trefniadau arfaethedig fel sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad ar gyfer gweithredu'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth i ddarparu model Carfan o amgylch y Teulu (TAF) gwell ar draws RhCT.
- c) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd i weithredu cynigion yr adroddiad parthed comisiynu, yn enwedig mewn perthynas ag elfennau Anabledd, Cymorth i Rien i Chymorth i Bobl Ifainc grant Teuluoedd yn Gyntaf.

68 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2016/17

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, yntau'n rhinwedd ei ddyletswyddau'n Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, fanylion ynglŷn â'i adroddiad blynyddol a amlinellodd faterion gweithredu, cyflawniad, risgiau a gwelliannau sydd ar y gweill ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ar gyfer 2016/17.

Cafodd Aelodau'u hatgoffa i adroddiad drafft gael ei gyflwyno i'r Cabinet, a'i fod wedi bod yn destun y broses graffu ers hynny yn y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc ar 12 Gorffennaf a'r Pwyllgor Materion Iechyd a Lles ar 13 Gorffennaf ar gyfer ymgynghori. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod yr adborth, at ei gilydd, yn galonogol, gan sôn am y mannewidiadau sydd wedi'u ychwanegu, gan gynnwys cynnwys adran i bennu cyflawniad parthed 'Mwy na Geiriau' ac i roi eglurhad ynglŷn â'r data sydd wedi'i gyflwyno.

Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion ac i Blant groeso i adroddiad cadarnhaol y Cyfarwyddwr a oedd yn nodi bod y gwasanaeth yn parhau i wella, gan sôn ymhellach am bwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid i gryfhau gwasanaethau cymorth yn y cymunedau er mwyn mynd i'r afael â phroblemau sy'n dod i'r fei.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi canlyniad y broses ymgynghori a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Rhondda Cynon Taf (Atodiad 1) ar gyfer ei gyhoeddi.

69 DEDDF TEITHIO LLESOL (CYMRU) 2013: CYFLWYNO MAP RHWYDWAITH INTEGREDIG I LYWODRAETH CYMRU

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd wybod i'r Aelodau am y gwaith wedi ei gyflawni i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, cyn cyflwyno map rhwydwaith integredig teithio llesol i Lywodraeth Cymru.

Cafodd Aelodau wybod am y cyfnod ymgynghori â'r cyhoedd 13 wythnos a gafodd ei gynnal, a arweiniodd at baratoi Map Rhwydwaith Integredig Teithiol Llesol y Cyngor, yn unol â gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

Soniodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden am y gwaith manwl sydd wedi'i wneud a arweiniodd at baratoi'r map, a oedd angen iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 3 Tachwedd ar gyfer ei gymeradwyo. Ychwanegodd yr Aelod na fyddai cyflwyno'r cynllun yn atal unrhyw lwybrau newydd posibl rhag cael eu cyflwyno yn y dyfodol.

PENDERFYNODD Aelodau:

- a) Nodi'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud gan y Cyngor, hyd yn hyn, mewn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Yn enwedig, canlyniad y broses ymgynghori fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad B yn yr adroddiad.

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

- b) Cymeradwyo'r fersiwn terfynol o Fap Rhwydwaith Integredig Teithiol Llesol ar gyfer ardal Rhondda Cynon Taf a blaenoriaethu cynlluniau arfaethedig sy'n ategu'r ddogfen hon fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad C.
- c) Cyflwyno'r ddogfen i Lywodraeth Cymru.

70 GORFODI PARCIO SIFIL: GWELLA'R GWASANAETH, A'I EHANGU

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Priffyrdd a Gofal y Strydoedd Aelodau at ei adroddiad a oedd yn nodi cynllun arfaethedig i ystyried a gweithredu gwasanaeth gorfodi parcio sifil gwell ac estynedig yn sgil adolygiad diweddar o'r trefniadau yn y swyddfa gefn a'r gwaith gorfodi yn y rheng flaen.

Cafodd Aelodau wybodaeth am y cynnig a oedd yn pennu'r rhesymeg o ran y Cyngor yn ymgymryd â gwaith swyddfa-gefn ar gyfer prosesu'r Hysbysiadau Tâl Cosb ar ran Cynghorau Merthyr Tudful a RhCT, yr angen am swyddogion gorfodi sifil ychwanegol, a phrynu cerbyn gorfodi parcio teithio a fyddai'n gwella gallu'r Cyngor i fod ynglŷn â blaenoriaethau gorfodi allweddol yn effeithiol.

Bwriodd Aelodau o'r Cabinet sylwadau ar yr adroddiad a'r effeithiau y mae parcio gwael ac anghyfreithlon yn eu cael ar lif y traffig ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan groesawu, felly, y cynigion yn yr adroddiad. Soniodd yr Arweinydd am bwysigrwydd cynyddu ymwybyddiaeth gyrrwyr sy'n parcio'n wael byth a hefyd y tu allan i barthau gorfodi sydd i'w targedu yn y dyfodol, megis ysgolion, er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw newid eu harferion parcio cyn mynd ati i gymryd camau gorfodi.

Anerchodd y Cynghorydd S Bradwick y cyfarfod ar y mater yma hefyd.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:-**

- a) Yn dilyn penderfyniad diweddar gan swyddog wedi'i ddirprwyo a rhybudd o ddod â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol gyda Chyngor Merthyr Tudful i ben, parthed dod â'r ddarpariaeth swyddfa-gefn ar gyfer prosesu'r Hysbysiadau Tâl Cosb Gwasanaeth Gorfodi Parcio Sifil y Cyngor o dan drefniannau mewnol, bod Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd yn cael ei ddatblygu gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf yn ymrwmo i ddarparu'r elfen brosesu uchod ar ran y ddau Gyngor, ac yn ychwanegol at hynny, gyda golwg, o bosibl, ar ddod yn ganolfan rhanbarthol ar gyfer prosesu Hysbysiadau Tâl Cosb ar ran Cynghorau eraill. (Bydd hyn yn gofyn am benodi 2 aelod arall o staff cymorth y priffyrdd yn y lle cyntaf).
- b) Cytuno â phenodi 2 Swyddog Gorfodi Sifil ychwanegol i fynd i'r afael â thorri rheolau parhaus o gyfyngiadau parcio y tu allan i ysgolion, ac mewn ymateb o gynnydd yn y galw tu allan i oriau, (e.e. yr hwyrnos a phenwythnosau), am orfodi parcio mewn mannau o flaenoriaeth, megis parthau parcio preswyl newydd eu cyflwyno.
- c) Bod cerbyd gorfodi teithiol âamera, ynghyd â meddalwedd a chaledwedd cysylltiedig, yn cael eu prynu er mwyn hwyluso gwaith gorfodi parcio sifil y Cyngor a'i wella'r tu allan i ysgolion, ar bwys mannau croesi i gerddwyr, a chlirffyrdd arosfannau'r bysiau. Cyn prynu cerbyd, caiff ystyriaeth ei rhoi o ddefnydd mwy effeithlon o'r cerbydau presennol o ran defnydd deuddiben. Cyn cynyddu'r camau gorfodi tu allan i ysgolion, caiff ysgolion eu cysylltu i roi gwybod am y bwriad o gymryd y camau gorfodi llymach yma. Bydd hyn yn galluogi ysgolion i roi gwybod i rieni/gwarcheidwaid am y newidiadau gan roi'r cyfle i yrwyr i newid eu harferion parcio.

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

71 CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR – BLAENORIAETHAU BUDDSODDI

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen wybod i Aelodau ynglŷn â sefyllfa'r Cyngor mewn perthynas ag adnoddau un-tro mae modd manteisio arnyn nhw yn sgil adolygu'r cronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi ar ôl cwblhau'r broses archwilio o ran Datganiad o Gyfrifon y Cyngor 2016/17.

Soniodd y Cyfarwyddwr am bwysigrwydd buddsoddi mewn meysydd sy'n cefnogi blaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Corfforaethol a'r adnoddau ychwanegol o £36miliwn, ar ben dyraniadau arferol y Rhaglen Gyfalaf sydd wedi'u buddsoddi ers Hydref 2015. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau at adran 4, Atodiad A a amlinellodd gyfleoedd buddsoddi pellach yn dilyn adolygu cronfeydd wedi'u clustnodi'r Cyngor, gan ddod â'r cyfanswm o gronfeydd wedi'u pennu ar gyfer eu rhyddhau, sef cyfanswm o **£7.000M**.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r swyddogion cyllid am gynnal yr adolygiad a'r gwaith monitro a'r sicrwydd parhaus mewn perthynas â chyllideb y Cyngor. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at y gwaith cadarnhaol gan swyddogion ar draws y Cyngor mewn perthynas â phennu cyfleoedd ariannu i symud prosiectau yn eu blaenau. Siaradodd Aelodau o blaid yr adroddiad a'r cyfleoedd buddsoddi sydd ar gael a buddion y byddai'r buddsoddi yn eu cael i drigolion.

Anerchodd y Cynghorydd R Yeo y cyfarfod ar y mater yma hefyd.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Cynnig rhyddhau cronfeydd wedi'u clustnodi a'r blaenoriaethau buddsoddi sy'n deillio o hynny fel y nodwyd yn Atodiad A i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 29 Tachwedd 2017.
- b) Derbyn adroddiad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf tua dechrau 2018 ynglŷn â Chronfeydd wedi'u Clustnodi sydd ar gael yn rhan o'r gwaith arferol ar strategaeth y gyllideb sy'n cael ei wneud ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.

(**Noder** dywedodd Ysgrifennydd i'r Cabinet fod y dyddiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor wedi newid o 22 Tachwedd i 29 Tachwedd)

72 Ymgynghoriad Cyllideb 2018/19 - Adroddiad

Rhododd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet fanylion i'r Aelodau parthed y broses ymgynghori ar y gyllideb arfaethedig ar gyfer Blwyddyn 2018/19 y Cyngor, mewn perthynas ag ymgysylltu â'r cyhoedd. Cafodd Aelodau wybod bod y broses sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad yn rhoi cyfle i drigolion, drwy amryw dulliau, i roi adborth i'r Cabinet ar y broses pennu'r gyllideb ar gyfer 2018/19.

Soniodd y Dirprwy Arweinydd am yr opsiynau ymgysylltu gwahanol a gafodd eu nodi yn yr adroddiad, gan sôn am y twf yn y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, a'r angen i'r Cyngor i barhau i ddefnyddio hyn fel dull ymgysylltu gwerthfawr. Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd hefyd at achlysuron ymgynghori canol y trefi a'r cyfle i siarad â thrigolion yn uniongyrchol am y broses pennu'r gyllideb.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi llwyddiant dulliau'r llynedd o fynd ati ynglŷn ag ymgynghori ar y gyllideb.

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

- b) Cymeradwyo'r dull arfaethedig a fyddai'n cynnwys:
- defnyddio efelychydd cyllideb
 - Sioeau Teithiol Canol y Trefi
 - Achlysur ymgynghori â phobl ifainc
 - Ymgynghori â Grwpiau Pobl Hŷn
 - Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ymgysylltiad ac i gael adborth
 - Ymgysylltu â'r gymuned.
- c) Nodi bydd y cyfnod ymgynghori ar y gyllideb yn dechrau ar 6 Tachwedd 2017 tan 18 Rhagfyr 2017.
- d) Nodi bydd gofynion statudol y Cyngor parthed ymgynghori ar y Cynllun Gostyniadau'r Dreth Gyngor a lefelau Treth y Cyngor yn cael eu bodloni trwy'r dull arfaethedig sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.
- e) Rhoi cyfarwyddyd i'r Ysgrifennydd i'r Cabinet i roi gwybod i Gadeiryddion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgor Materion Cyllid a Chyflawniad am y dull o fynd ati a pharhau ag un cam didor.
- f) Bod manylion ynglŷn â'r ymgynghoriad ar y gyllideb a chyfleoedd ymgysylltu ar gael ar wefan y Cyngor.

(**Noder** Rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet wybod i Aelodau y byddai angen peidio â chynnwys y mater yn rhan o'r weithdrefn 'galw-i-mewn', oherwydd yr amserlen arfaethedig sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad er mwyn rhoi modd i gychwyn yr ymgynghoriad ar, 6 Tachwedd, 2017)

73 CADW AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD ALLAN O YSTAFELL Y GYFARFOD

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, o dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad

- a) Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf, sef gwybodaeth ynglŷn â materion ariannol unigolyn penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno). Mae tryloywder o ran cynnal busnes awdurdod lleol yn ddymunol; serch hynny, bydd gwybodaeth ariannol bersonol yn cael ei thrafod a'i hystyried. Ystyrir, felly, fod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn troi'r fantol yn erbyn budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth, felly, oherwydd hynny, mae'n debygol na fydd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- b) Paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf, sef, gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag unigolyn penodol. Mae eglurder wrth gynnal busnes yr Awdurdod Lleol yn ddymunol; serch hynny, bydd data personol yn ymwneud ag ymddygiad a gallu unigolion yn cael eu trafod a'u hystyried. Ystyrir, felly, fod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn troi'r fantol yn erbyn budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

74 CYNLLUN RHEOLI ASED AU CORFFORAETHOL 2013/18: Y diweddaraf

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor a Chaffael y diweddaraf i Aelodau ar yr hynt ynglŷn â gweithredu'r cynllun gwaith sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2013/18 ar gyfer Asedau Eiddo. Cafodd aelodau wybod bod y cynllun yn pennu fframwaith strategol eang ar gyfer rheoli portffolio o eiddo'r Cyngor, sydd wedi bod yn sylfaen gadarn ar gyfer defnyddio eiddo'n effeithiol a datblygu cynnwys y portffolio mewn ymateb i bwysau newidiol.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad.

75 ADOLYGIAD O STRWYTHUR UWCH REOLWYR A SWYDDI RHEOLI CYSYLLTIEDIG Y CYNGOR

Rhoddodd yr Arweinydd wybod i Aelodau, yng ngoleuni amgylchiadau arbennig, h.y. rhoi gwybodaeth i Aelodau ar y strwythur yn dilyn y broses ymgynghori, y byddai adroddiad y Prif Weithredwr yn cael ei drafod yn y cyfarfod hwn yn unol â darpariaeth adran 100B4(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Soniodd y Prif Weithredwr wrth Aelodau am y broses ymgynghori â gweithwyr sydd angen ei chynnal yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 19 Medi, gan gyfeirio Aelodau at gynnwys ei adroddiad a nododd yr adborth a'r newid arfaethedig i'r strwythur yn dilyn yr ymgynghoriad.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

- a) Newid y swydd a gafodd ei hargymell o'r blaen, sef swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant (Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Lefel 1) i Gyfarwyddwr – Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant (Cyfarwyddwr – Lefel 2)
- b) Nodi'r strwythur diwygiedig ar gyfer y Gyfarwyddiaeth fel sydd i'w gweld yn Atodiad 2(i.b) yn yr adroddiad
- c) Nodi y bydd y gostyngiad amcangyfrifiedig yng nghostau blynyddol y rheolwyr ar haenau Uwch Reolwyr a Swyddi Rheoli Cysylltiedig yn lleihau o £776,116 (gan gynnwys ar-gostau) i £760,270 (gan gynnwys ar-gostau) oherwydd y newid.

(**Noder** Fe adawodd Ms E Thomas, Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes dros dro y cyfarfod yn ystod trafod y mater a bwrw pleidlais arno, gweler cofnod 63).

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55am
Cynghorydd A. Morgan

Y

Cadeirydd